

BIG PIT : AMGUEDDFA LOFAOL CYMRU, BLAENAFON

GWYBODAETH AM DDIOGELWCH I HELPŪ YSGOLION I BARATOI AR GYFER YMWELIADAU YSGOL AC ASESU RISGIAU

Cofiwch:

- fod ysgolion yn gyfrifol am wneud eu hasesiadau eu hunain o'r risgiau, ac
- na allwn ni lenwi, dilysu na llofnodi unrhyw ran o ffurflenni asesu risgiau ysgolion am nad ni sy'n gyfrifol amdany'n nhw.

Rydyn ni'n argymell bod ysgolion yn cyfeirio at ddogfen y DfES '*Health and Safety of Pupils/Young People on Educational Visits - A Good Practice Guide, 1988*'.

www.education.gov.uk/publications/standard/publicationdetail/page1/hspv2

neu'r canllaw: 'Ymweliadau Addysgol – arweiniad i ddiogelwch wrth ddysgu tu allan i'r ystafell ddogfen, 2010' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100309educationalvisitsguide2010en.doc>. Mae hyn yn egluro taw cyfrifoldeb athrawon ac arweinwyr grwpiau yw llenwi asesiadau o risgiau cyn mynd ar ymweliad.

Rhywbeth i'ch helpu chi i baratoi yw'r wybodaeth rydyn ni'n ei chynnig am ddiogelwch, ac nid yw'n cymryd lle'r angen i chi wneud eich asesiad eich hun o risg sy'n benodol i anghenion eich grŵp gan ddilyn y canllawiau swyddogol a pholisïau'r ysgol/AALI.

Mae ein gwybodaeth am ddiogelwch yn amlinellu'r mesurau rheoli y mae'r amgueddfa'n eu dilyn i osgoi neu leihau risgiau, ynghyd â'r rheolau ymddygiad ar gyfer grwpiau sy'n ymweld. Bydd eich asesiad o risg yn cymryd i ystyriaeth oedran, gallu ac anghenion penodol eich grŵp, unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'ch cludiant neu'r tywydd adeg eich ymweliad, yn ogystal â gwybodaeth yr amgueddfa am ddiogelwch.

Rydym yn argymell eich bod chi'n rhoi copi o'r asesiad o risgiau/gwybodaeth berthnasol am ddiogelwch i'r holl athrawon/goruchwylwyr ar yr ymweliad.

Yn olaf, rydym wedi cynnwys dyfyniadau o Bolisi Amddiffyn Plant yr Amgueddfa ar ddiwedd y ddogfen er gwybodaeth.

Dyfarnwyd Bathodyn Safon Dysgu Tu Allan i'r Ystafell Ddogfen i Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru. Mae'r bathodyn hwn yn achrediad cenedlaethol yn cyfuno addysg a diogelwch o dan un Bathodyn Safon cydnabyddedig ar gyfer pob math o ddarparwyr addysg tu allan i'r ystafell ddogfen. Mae'n gymorth i ysgolion adnabod sefydliadau sy'n darparu addysg tu allan i'r ystafell ddogfen sy'n darparu profiadau addysgu a dysgu o safon uchel ac sy'n rheoli risg yn effeithiol.



| Datganiad Diogelwch | |
|----------------------------|---|
| | <p>Mae Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru yn derbyn ei chyfrifoldebau llawn o dan y Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch yn bodoli ynghyd ag asesiadau ysgrifenedig o risg a wnaed mewn perthynas â'n dyletswyddau cyfreithiol tuag at bobl nad ydynt yn aelodau o staff (h.y. ymwelwyr) sy'n dod i'r safle ac yn defnyddio ein cyfleusterau.</p> <p>Gallwn eich sicrhau bod iechyd a diogelwch ymwelwyr ar y safle o'r pwys mwyaf i ni. Rydym wedi cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol ar faterion iechyd a diogelwch, ac rydym am sicrhau y byddwch yn mwynhau ymweliad hwyliog ac addysgiadol.</p> <p>Mae gennym bolisi recriwtio, hyfforddi ac asesu staff sy'n sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am ddiogelwch a lles ymwelwyr/cyfranwyr yn gymwys i wneud eu gwaith.</p> <p>Gofynnir yn garedig i athrawon a staff eraill yr ysgol weithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru trwy oruchwylio'r plant sydd yn eu gofal ar y safle. Cyfrifoldeb yr ysgol yw'r disgyblion drwy gydol yr ymweliad, gan gynnwys amser cinio.</p> <p>Rydym yn argymhell yn gryf bod arweinwyr grwpiau'n dod ar ymweliad i baratoi er mwyn asesu unrhyw risgiau posibl i'r grŵp.</p> |

| Cefndir | |
|-----------------------------|--|
| Profiad | Daeth oes Big Pit fel pwell glo gweithiol i ben ym 1980, ac agorodd fel amgueddfa ym 1983. Mae'r safle wedi bod yn agored i'r cyhoedd ers bron i 30 mlynedd. |
| Manylion y Lleoliad/Atyniad | <p>Gall ymwelwyr ddisgyn 90 metr i grombil y pwell i weld lle'r oedd cenedlaethau o lowyr Cymru'n gweithio. Cyn-löwr sy'n arwain pob taith, ac mae'r teithiau'n para rhyw 50 munud.</p> <p>Ar yr wyneb, gall ymwelwyr weld yr Oriolau Mwyngloddio, lle daw golau a sain â ffas lo modern yn fyw. Mae'r cyflwyniad awdio-weledol yma'n dechrau gyda ffilm fer, sy'n para tua 20 munud.</p> <p>Mae Baddondai Pen y Pwell wedi cael ei hadfer i ddangos ble fyddai pob sifft yn dechrau ac yn gorffen. Yn adeilad y baddondy hefyd mae arddangosfeydd sy'n adrodd hanes y bobl oedd yn gweithio yn y diwydiant glo yn ogystal ag arddangosfeydd o wrthrychau ac offer y diwydiant glo, a phynciau fel daeareg a bywyd cymdeithasol.</p> |

| | |
|--------------------|---|
| | <p>Gall ymwelwyr weld adeiladau gwreiddiol y lofa o gwmpas y safle, gan gynnwys tŷ'r ffan, tŷ'r injan weindio, efail y gof a'r stablau.</p> <p>Mae'r Gweithdy Cadwraeth ar agor i'r cyhoedd o ddydd Llun i ddydd Gwener fel rheol. Mae'n rhoi blas ar beth sy'n digwydd i wrthrychau'r Amgueddfa y tu ôl i'r llenni.</p> <p>Mae ymweliad ysgol nodweddiadol yn para tua 4 awr.</p> |
| Niferoedd Ymwelwyr | Rydym yn croesawu tua 160,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae dros 60,000 o'r rhain yn dod mewn grwpiau addysg ffurfiol. |
| Manylion Cyswllt | <p>I drefnu ymweliad, trafod manylion ymweliad neu i drefnu ymweliad i baratoi, ffoniwch 029 2057 3650</p> <p>Bydd y Swyddog Addysg yn medru ateb unrhyw gwestiynau fydd gennych am gyfleusterau a threfniadau.</p> <p>Os ydych chi'n poeni am unrhyw beth ar ôl eich ymweliad, neu os cawsoch chi broblemau mewn perthynas â rheolaeth y lleoliad neu iechyd a diogelwch aelodau o'r grŵp, byddwn ni'n hapus i drafod y materion hyn gyda chi.</p> <p>Cysylltwch â'r Swyddog Addysg ar 029 2057 3650</p> |

| Gwybodaeth Gyffredinol | |
|---|---|
| Anifeiliaid / Anifeiliaid yn Baeddu mewn Mannau Cyhoeddus | <p>Croeso i chi ddod â chŵn i'r safle, ond ni chewch fynd â nhw danddaear nac i'r adeiladau na'r manau arddangos. Rydyn ni'n croesawu cŵn tywys gydag ymwelwyr â nam ar eu golwg neu ar eu clyw, ond ni ellir mynd â nhw danddaear.</p> <p>Mae disgwyl i berchnogion glirio baw eu cŵn.</p> |
| Systemau Cyfathrebu | Mae systemau radio dwy ffordd ar gael yn holl adrannau'r Amgueddfa. Mae yna system Gyfathrebu Awdio Uniongyrchol (DAC) sy'n caniatáu cyfathrebu rhwng gwahanol bwyntiau danddaear, a rhwng y bobl danddaear ac ar yr wyneb. |
| Hanes Troseddol | <p>Rydym wedi cynnal archwiliad y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol (NIS) ar bob aelod o staff. Mae'r archwiliadau cydnabyddedig hyn yn arbennig ar gyfer y sector amgueddfeydd ac yn gyfystyr ag archwiliad sylfaenol y CRB.</p> <p>Mae staff yr Amgueddfa sy'n dod i gysylltiad rheolaidd a/neu heb oruchwyliaeth â phlant yn derbyn archwiliadau trylwyr y CRB.</p> |
| Offer | <p>Mae'r holl offer yn cael ei archwilio'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn 'addas at y pwrpas'. Rhaid i staff yr ysgol oruchwyllo'r plant wrth iddynt ddefnyddio'r offer yma.</p> <p>Ni chaniateir i unrhyw un ddringo ar offer ar y safle.</p> |
| Clirio'r Safle mewn | Mae trefniadau ar waith i glirio'r safle mewn argyfwng. |

| | |
|--|--|
| Argyfwng | <p>Mae holl staff y safle'n gyfarwydd â'r trefniadau ac yn eu hymarfer yn gyson. Mae ffordd arall allan o'r daith danddaear ar gael mewn argyfwng.</p> <p>Mae Cyfarwyddiadau Diogelwch Tân ar gael ym mhob adran. Mae'r rhain yn rhoi manylion y trefniadau i'w dilyn os yw'r larwm tân yn canu, ac yn dangos y manau ymgynnull.</p> <p>Bydd larwm yn canu os oes angen clirio'r safle a dylech adael trwy'r allanfa ddiogel agosaf. Bydd staff yr Amgueddfa yn eich cyfeirio at y man ymgynnull.</p> |
| Cyfleusterau ar gyfer Ymwelwyr ag Anghenion Arbennig | <p>Mae Big Pit yn ceisio darparu ar gyfer ymwelwyr ag anghenion arbennig. Cysylltwch â ni <u>ymlaen llaw</u> i holi pa drefniadau y gallwn ni eu gwneud ar gyfer ymwelwyr ag anghenion arbennig.</p> <p>Rhaid i ysgolion ac arweinwyr grwpiau sicrhau eu bod nhw'n gwneud trefniadau addas i oruchwyllo a chynorthwyo disgyblion ag anghenion arbennig.</p> <p>Mae Canllawiau Mynediad ar gael ar ein gwefan www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/bigpit/mynediad neu ffoniwch 029 2057 3650</p> <p><u>Namau Corfforol</u> Mae'r rhan fwyaf o'r safle'n agored i bawb, ond am fod rhai llwybrau serth rydym yn argymhell bod pobl mewn cadeiriau olwyn a phobl â phroblemau cerdded yn cael cymorth oedolyn arall. Mae'r llawr yn anwastad mewn manau. Dim ond 4 ymwelydd mewn cadair olwyn gaiff fynd o dan y ddaear ar y tro.</p> <p><u>Namau ar y Golwg</u> Mae'r Oriolau Mwyngloddio'n cynnwys cyflwyniad awdio-weledol â gwahanol lefelau o olau a lliw. Mae staff yr amgueddfa'n hapus i adael i ymwelwyr gyffwrdd neu ddal amrywiaeth o arddangosion.</p> <p><u>Namau ar y Clyw</u> Mae cyflwyniadau awdio-weledol ym mhob rhan o'r amgueddfa. Mae dolenni sain ar gael yn y manau arddangos.</p> |
| Cymorth Cyntaf | Os oes angen Cymorth Cyntaf arnoch chi, cysylltwch ag aelod o staff yr Amgueddfa a fydd yn galw am gymorth. |
| Teithiau Tywys / Gweithgareddau yng Nghwmni Dehonglydd | <p>Cyn-löwr fydd yn arwain eich taith danddaear.</p> <p>Bydd yr Amgueddfa wedi asesu risgiau'r gweithgaredd o dan sylw ac yn eich hysbysu ar lafar o'r risgiau yma a sut y cant eu rheoli.</p> |
| Cyfyngiad Taldra | Rhaid i blant fod o leiaf 1 metr o daldra i fynd ar y daith danddaear. |
| Yswiriant / Atebolrwydd | Mae gan yr Amgueddfa yswiriant masnachol am |

| | |
|---|---|
| Cyhoeddus | gyfrifoldeb cyhoeddus (amgaeir copi ar ddiwedd y ddogfen). |
| Plant Coll | <p>Dywedwch wrth y plant i siarad ag un o'r Wardeiniaid neu aelod o staff yr Amgueddfa os ydyn nhw ar goll. Bydd y plant yn cael eu cadw mewn ardal ddiogel tan i'r grŵp eu casglu.</p> <p>Os bydd arweinydd grŵp yn sylwi bod rhywun ar goll, dywedwch wrth un o'r Wardeiniaid neu aelod o staff yr Amgueddfa a fydd yn cymryd y camau priodol.</p> |
| Uchafswm Niferoedd Grwpiau / Goruchwyliaeth | <p>Gwnewch yn siŵr bod rhywun yn goruchwyllo'ch disgyblion drwy'r amser. Rydyn ni'n gofyn eich bod chi'n cadw at y cyfraddau canlynol:</p> <p>Cyfnod Allweddol 1: 1 oedolyn cyfrifol : 6 phlentyn Cyfnod Allweddol 2: 1 oedolyn cyfrifol : 10-15 plentyn Cyfnod Allweddol 3+ : 1 oedolyn cyfrifol : 17 plentyn</p> <p>Dyma'r cyfraddau y mae'r DfES yn eu hargymell a'r gofynion angenrheidiol ar gyfer y daith danddaear. Dylai arweinwyr grwpiau asesu'r risgiau ac ystyried lefel ddiogel o oruchwyliaeth ar gyfer eu grŵp.</p> <p>Caniateir uchafswm grŵp o 100 person ar y safle ar y tro. Byddwn yn gofyn i grwpiau o'r maint yma rannu ac ymweld ag ardaloedd gwahanol o'r Amgueddfa ar amseroedd gwahanol. Dim ond 17 person ar y tro gaiff fynd ar y daith danddaear. Bydd yr aelod o staff sy'n casglu'r grŵp o'r ystafell aros yn trefnu hyn.</p> |
| Anghenion Meddygol | <p>Dylai arweinwyr grwpiau neu ysgolion roi gwybod i staff y Swyddfa Archebu os oes gan unrhyw ddisgybl anghenion penodedig neu anhwylder meddygol penodol. Bydd yn rhaid i ni ystyried hyn a thrafod trefniadau brys gyda chi.</p> <p>Os ydyw'n ddiogel, byddwn yn ceisio cynnwys disgyblion ag anhwylderau penodedig neu ddifrifol yn y gweithgareddau a gynigir.</p> |
| Ymddygiad Ymwelwyr | <p>V Ni ddylai ymwelwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> • fynd i fannau sydd ar gau i'r cyhoedd • ymddwyn yn afreolus • cyffwrdd ag unrhyw beiriannau sy'n gweithio • dringo ar unrhyw beiriannau ar y safle. <p>Mae'r Amgueddfa'n cadw'r hawl i ofyn i grwpiau neu ymwelwyr sy'n ymddwyn yn sarhaus neu'n afresymol adael y safle.</p> <p>Rhaid i unrhyw grwpiau o fyfyrwyr o dan 16 oed fod dan oruchwyliaeth bob amser. Arweinwyr y grŵp neu'r oedolion sy'n eu goruchwyllo sy'n gyfrifol amdanynt drwy gydol yr ymweliad.</p> <p>Gallwn wrthod mynediad i grwpiau sydd heb</p> |

| | |
|---|--|
| | oruchwylwyr. |
| Map Sgematig | Darperir map i arweinyddion y grŵp wrth gyrraedd. Bydd y map yn rhoi gwybodaeth am fannau parcio bysys/ceir a llwybrau awdurdodedig i gerddwyr. Mae map mwy yn llawlyfr y safle sydd ar werth yn y brif Dderbynfa. |
| Archwiliadau Safle o'r Cyfleusterau / Ardaloedd | Mae staff yn archwilio'r cyfleusterau'n gyson ac yn cofnodi eu canfyddiadau. |
| Adnabod Staff y Safle | Mae holl staff yr amgueddfa'n gwisgo bathodynau adnabod. Croeso i chi fynd atyn nhw os oes rhywbeth yn eich poeni. Byddan nhw'n gallu eich helpu neu eich cyfeirio at y lle priodol i gael cymorth. |
| Traffig | Mae Maes Parcio Bysiau ar gael ger y lle gadael teithwyr wrth y brif fynedfa. |
| Amddiffyn Rhag y Tywydd / Diogelwch yn yr Haul / Dillad | Safle diwydiannol awyr agored yw'r Pwll Mawr, felly gwisgwch ddillad addas mewn tywydd gwael. Rydyn ni'n argymhell gwisgo esgidiau cadarn ar y daith danddaear. Amddiffynnwch eich hun rhag yr haul mewn tywydd braf. |
| Cyfleusterau Lles | <u>Ystafell Cymorth Cyntaf</u> Mae ystafell cymorth cyntaf ar Ben y Pwll. <u>Toiledau</u> Mae toiledau, gan gynnwys rhai i bobl anabl, ar bob un o 3 lefel Big Pit. <u>Ystafell Frechdanau</u> Mae gennym ystafell frechdanau sy'n dal 70 o bobl. Y cyntaf i'r felin gaiff falu wrth ddefnyddio'r ystafell hon. Darperir biniau a bagiau sbwriel i sicrhau y gall grwpiau adael yr ystafell mewn cyflwr glan a thaclus. |

| | |
|----------------------------|---|
| Ardaloedd Risg Uwch | |
| Adeiladau | <u>Efail y Gof</u> Weithiau mae tân agored yn yr efail. Peidiwch â gadael i blant groesi'r ffens. <u>Gweithdy Cadwraeth</u> Mae cemegolion a phaent yn cael eu defnyddio ar brydiau. Peidiwch â gadael i blant groesi'r ffens; a gwrandewch ar gyngor y staff cadwraeth. <u>Yr Oriellau Mwyngloddio</u> Mae mannau tywyll, synau mawr, a lefelau amrywiol o olau mewn rhannau o'r cyflwyniad. <u>Tŷ'r Injan Weindio</u> Rhybuddiwch y plant i beidio â cheisio denu sylw'r gyrrwr os yw'r injan yn gweithio. Peidiwch â gadael i blant groesi'r ffens. |
| Peiriannau | Mae peiriannau gwreiddiol yn rhan o'r arddangosfa yn iard yr Efail, yn y Gweithdy Cadwraeth ac wrth adeilad y Baddondai Pen Pwll. Dylech rybuddio'r |

| | |
|--------------------------|--|
| | plant i fod yn ofalus o gwmpas y peiriannau. |
| Dillad / Offer Diogelwch | <p>Mae'r hunan-achubwyr fyddwch chi'n eu cludo ar y daith danddaear yn cynnwys hopcalit. Gall llyncu neu anadlu hwn heb reolaeth fod yn niweidiol. Ni ddylai'r plant geisio agor y rhain heb gyfarwyddyd y Tywysydd Glofa.</p> <p>Gall niwed i'r batris sy'n cael eu cludo ar y daith danddaear beri iddyn nhw ollwng. Os bydd hynny'n digwydd, dywedwch wrth y Tywysydd a golchwch ddwylo a dillad y person o dan sylw ar unwaith.</p> |
| Gweithgareddau Danddaear | <p>Dylai'r plant aros gyda'r grŵp drwy'r amser danddaear.</p> <p>Rhaid i bob ymwelydd wisgo het galed ar y daith danddaear.</p> <p>Mae deddfwriaeth diogelwch Deddf y Pyllau Glo yn berthnasol i Big Pit. Mae'n anghyfreithlon mynd â deunydd ysmegu, neu bethau cynnau tân danddaear. Mae hyn yn cynnwys sigarêts, baco, matsys a thanwyr, ffonau poced, watsys a phethau dal allweddi â batris, cyfrifiannellau, radios, chwaraewyr casét personol ac offer tynnu lluniau. Bydd Tywysyddion yr Amgueddfa'n casglu'r 'contraband' yma cyn dechrau'r daith danddaear, ac yn ei gadw dan glo ar yr wyneb tan ddiwedd y daith.</p> |
| Graean / Graean Llechi | Mae'r rhain ar y llawr mewn manau. Dylech rybuddio'r plant i beidio â'u taflu na chwarae gyda nhw. |
| Llethrau serth | Mae llethr serth y tu allan i'r Ffreutur yn y Baddondai Pen Pwll. Nid yw'n rhan o'r brif daith ymwelwyr. Dylai plant cael eu rhybuddio i beidio â cherdded, rhedeg neu rollo i lawr y llethr hwn. |
| Diogelwch | Er diogelwch, sylwer na ellir mynd â bagiau mawr a sachau teithio danddaear. Gall staff yr amgueddfa ofyn i chwilio unrhyw fag gaiff ei gludo i'r safle. |

Gwybodaeth Berthnasol Arall (yn cynnwys manylion lle nad yw'n bosibl ateb y gofynion uchod)

| | |
|--|---|
| Sylwer ar Beryglon Posibl a Mesurau Rheoli | |
| Adolygu | Caiff y ddogfen yma a'r wybodaeth gysylltiedig am ddiogelwch ei diweddarau'n gyson. |

Ebrill 2011

AMDDIFFYN PLANT AR SAFLEOEDD AMGUEDDFA CYMRU

Mae ein Polisi Amddiffyn Plant llawn ar y wefan o dan www.amgueddfacymru.ac.uk/amdanomni/Polisi a Strategaeth. Darllenwch y dyfyniadau hyn yn ofalus cyn eich ymweliad.

Cyfrifoldebau Arweinwyr/Athrawon wrth ymweld â'r Amgueddfa

Mae Amgueddfa Cymru am sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed yn yr Amgueddfa. Yn ogystal â dyletswyddau'r Amgueddfa, rydyn ni'n gofyn bod arweinwyr/athrawon grwpiau yn cyflawni eu cyfrifoldebau eu hunain.

Yn benodol, bydd yr holl arweinwyr/athrawon yn:

- Sicrhau eu bod nhw'n goruchwyllo'r plant/pobl ifanc drwy'r amser
- Cysylltu ag aelod o staff yn achos damwain er mwyn sicrhau bod Trefn Argyfwng Amgueddfa Cymru yn cael ei dilyn
- Cysylltu ag aelod o staff os oes plentyn ar goll er mwyn dilyn trefn yr Amgueddfa
- Sicrhau nad oes gan y bobl ifanc ddioddydd meddwol na chyffuriau anghyfreithlon ac nad ydyn nhw'n eu defnyddio nac yn smygu ar dir yr Amgueddfa
- Peidio â cham-drin unrhyw blentyn/person ifanc ar lafar nac yn gorfforol
- Sicrhau bod gennych yswiriant digonol ar gyfer y grŵp a'r arweinydd
- Dweud wrth y grŵp sut i ymddwyn yn safleoedd Amgueddfa Cymru
- Dilyn Trefniadau Tân Amgueddfa Cymru

Arweinwyr/athrawon, sy'n bennaf gyfrifol am les y plant sydd yn eu gofal drwy'r amser. Byddwn ni'n rhoi gwybod i'r arweinydd/athro cyfrifol am unrhyw bryderon (oni bai mai dyna'r person sy'n achosi pryder i ni) ac yn cyfeirio'r mater at yr ysgol/sefydliad wedyn. Caiff pryderon am ymddygiad yr arweinydd/athro eu cyfeirio'n syth at yr ysgol/sefydliad ac efallai at yr heddlu hefyd.

Ymddygiad grwpiau yn yr Amgueddfa

Mae'r Amgueddfa am i'w holl ymwelwyr fwynhau eu hamser gyda ni. Felly rydyn ni'n disgwyl i bob ymwelydd ymddwyn yn gwrtais, a dangos parch at eraill ac at eiddo'r Amgueddfa bob amser wrth ymweld â'r Amgueddfa.

Ni ddylai arweinwyr grwpiau adael i neb yn y grŵp:

- Ymddwyn mewn ffordd fygythiol, ymosodol neu dreisgar
- Bwlio (ar lafar neu'n gorfforol)
- Gwneud sylwadau rhywiol, hiliol neu sylwadau difriol eraill am unrhyw berson neu grŵp arall
- Difrodi eiddo neu arddangosfeydd yr Amgueddfa
- Gadael sbwriel ar dir yr Amgueddfa
- Bwydo, cyffwrdd, dychryn neu niweidio'r anifeiliaid
- Mynd i rannau o'r Amgueddfa sydd wedi eu cau
- Defnyddio iaith anwedus
- Ysmygu
- Yfed alcohol y tu hwnt i'r manau sydd wedi'u clustnodi (h.y. y bwyty a'r manau picnic) neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon
- Bwyta ac yfed heblaw yn y caffis, y bwyty a'r llefydd eraill sydd wedi eu clustnodi i ysgolion fwyta eu lluniaeth eu hunain
- Defnyddio ffônau poced yn yr orielau

Os na fyddwch chi'n cadw at y gofynion hyn, mae'r Amgueddfa'n cadw'r hawl i wrthod derbyn grŵp a/neu i ofyn i'r grŵp adael yn safle.

CONFIRMATION OF INSURANCE

27 November 2017

TO WHOM IT MAY CONCERN

National Museum of Wales &/or NMGW Enterprises Ltd

We act as Insurance Brokers for the above named Insured and write to confirm that the following cover is in force.

Employer's Liability Cover applicable in respect of Volunteers
Insurer: Chubb Insurance Company
Policy Number: UKMSTC92060/B07972129952
Limit of Indemnity: £10,000,000 any one claim
Renewal Date: 23 November 2018

Public Liability
Insurer: Chubb Insurance Company/CNA (Cobra GAL Ltd)
Policy Number: UKMSTC92060/B07972129952
Limit of Indemnity: £20,000,000 any one claim
Renewal Date: 23 November 2018

Products Liability
Insurer: Chubb Insurance Company/CNA (Cobra GAL Ltd)
Policy Number: UKMSTC92060/B07972129952
Limit of Indemnity: £20,000,000 in the aggregate during the period of Insurance
Renewal Date: 23 November 2018

This document is provided for information only. It does not make the person or organisation to whom it has been issued an additional insured, nor does it modify in any way the above policies. Any amendment can only be effected by specific endorsement.

No obligation is accepted by Insurers or the undersigned to inform details of any amendments to the above policies subsequent to the date of issue of this document.

We will be pleased to clarify any points arising.

Yours faithfully

E L Bodsworth

Emma Bodsworth BA (Hons) ACII
Chartered Insurance Broker

Direct Dial: 01223 445407
Email: emmalb@s-tech.co.uk